Beth yw pwrpas y datganiad hwn?

Digwyddiad prin a brawychus yw wynebu tresbaswr yn eich cartref eich hun. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron (y CPS) a'r Prif Gwnstabliaid yn ymateb i bryder ymysg y cyhoedd ynghylch cefnogaeth y gyfraith mewn sefyllfa o'r fath a dryswch ynghylch deiliaid tai yn eu hamddiffyn eu hunain. Mae arnom eisiau cyfundrefn cyfiawnder troseddol sy'n gwneud penderfyniadau teg, sy'n ennyn hyder dinasyddion sy'n parchu'r gyfraith, ac sy'n eu hannog i fynd ati i gefnogi'r heddlu ac erlynwyr yn y frwydr yn erbyn troseddu.

Ble bynnag y bo modd, fe ddylech chi alw'r heddlu. Mae'r hyn sy'n dilyn yn crynhoi'r sefyllfa pan fyddwch yn wynebu tresbaswr yn eich cartref, ac mae'n egluro'n gryno sut bydd yr Heddlu a'r CPS yn ymdrin ag unrhyw ddigwyddiadau o'r fath.

A yw'r gyfraith yn fy ngwarchod? Beth yw 'grym rhesymol'?

Gall unrhyw un ddefnyddio *grym rhesymol* i'w hamddiffyn eu hunain neu eraill, neu i arestio rhywun neu atal trosedd. Nid oes disgwyl i chi wneud penderfyniadau manwl ynghylch faint o rym y byddwch yn ei ddefnyddio yng ngwres y funud. Cyn belled â'ch bod chi ond yn gwneud yr hyn rydych chi'n ei gredu yn onest a greddfol sydd ei angen yng ngwres y funud, dyna fyddai'r dystiolaeth gryfaf eich bod yn gweithredu'n gyfreithlon ac i'ch amddiffyn eich hun. Mae hyn yn dal yn wir os byddwch yn defnyddio rhywbeth wrth law fel arf.

Fel rheol gyffredinol, po fwyaf eithafol yw'r amgylchiadau a'r ofn y byddwch yn ei deimlo, mwyaf o rym y gallwch ei ddefnyddio'n gyfreithlon i'ch amddiffyn eich hun.

A oes raid i mi ddisgwyl i rywun ymosod arnaf?

Nac oes, nid os ydych yn eich cartref eich hun ac yn ofni rhag i rywbeth ddigwydd i chi neu eraill. Dan amgylchiadau o'r fath, nid yw'r gyfraith yn mynnu eich bod yn disgwyl i rywun ymosod arnoch cyn defnyddio grym amddiffynnol eich hun.

Beth os bydd y tresbaswryn marw?

Os ydych chi wedi gweithredu yn rhesymol i'ch amddiffyn eich hun, fel y disgrifir uchod, a bod y tresbaswr yn marw, fe fyddwch chi'n dal wedi gweithredu'n gyfreithlon. Yn wir, mae yna nifer o achosion o'r fath ble na chafodd y deiliaid tai eu herlyn. Fodd bynnag, os, er enghraifft:

- ar ôl taro rhywun yn anymwybodol, rydych wedyn yn penderfynu mynd ymlaen i'w hanafu neu eu lladd er mwyn eu cosbi; neu

- roeddech yn gwybod am dresbaswr arfaethedig ac wedi gosod trap i'w anafu neu ei ladd yn hytrach na rhoi gwybod i'r heddlu,

yna fe fyddech yn gweithredu â grym eithafol iawn a di-alw-amdano a gallech gael eich erlyn.

Beth os byddaf yn rhedeg ar eu hôl wrth iddynt redeg i ffwrdd?

Mae'r sefyllfa hon yn wahanol oherwydd nad ydych bellach yn gweithredu i'ch amddiffyn eich hun ac felly mae'n bosib na fyddai'r un faint o rym yn rhesymol. Ond, fe gewch chi'n dal ddefnyddio grym rhesymol i adfer eich eiddo a gwneud arestiad dinesydd. Fe ddylech chi ystyried eich diogelwch eich hun ac, er enghraifft, a oes rhywun wedi galw'r heddlu. Mae'n debyg y byddai tacl rygbi neu un ergyd yn rhesymol. Ni fyddai'n rhesymol gweithredu'n faleisus a dialgar gyda'r bwriad o gosbi trwy achosi niwed neu farwolaeth.

A fyddwch chi'n credu'r tresbaswr yn hytrach na fi?

Bydd yr heddlu yn pwyso a mesur yr holl ffeithiau wrth ymchwilio i ddigwyddiad. Mae hyn yn cynnwys y ffaith mai'r tresbaswr a achosodd i'r sefyllfa ddigwydd yn y lle cyntaf. Gobeithio y bydd pawb yn deall ei bod hi'n ddyletswydd ar yr heddlu i ymchwilio i achosion lle bydd marwolaeth neu niwed. Weithiau ni fydd pethau'n glir ar yr olwg gyntaf. Ambell dro, mae pobl wedi cymryd arnynt fod lladrad wedi digwydd er mwyn celu troseddau eraill, fel gwerthwyr cyffuriau yn ymladd â'i gilydd. ►

Sut byddai'r heddlu a'r CPS yn ymdrin â'r ymchwiliad ac yn fy nhrin i?

Wrth ystyried yr achosion hyn, mae'r Prif Gwnstabliaid a'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (Pennaeth y CPS) yn benderfynol bod yn rhaid ymchwilio iddynt a'u harolygu mor gyflym ac mor gydymdeimladwy â phosib. Mewn rhai achosion, er enghraifft pan fydd y ffeithiau'n glir iawn, neu pan fydd y niweidiau yn llai difrifol, bydd yr ymchwiliad yn cael ei gwblhau'n gyflym iawn heb fod angen arestio neb. Mewn achosion mwy cymhleth, er enghraifft pan fydd rhywun wedi marw neu gael niwed difrifol, bydd angen ymholiadau mwy manwl. Mae'n bosib y bydd angen i'r heddlu gynnal archwiliad fforensig a/neu ofyn i chi ddweud beth ddigwyddodd.

Er mwyn gwneud yn siwr ein bod yn ymdrin ag achosion o'r fath mor gyflym ac mor gydymdeimladwy â phosib, bydd yr Heddlu a'r CPS yn cymryd mesurau arbennig, sef:

- Bydd ymchwilydd profiadol yn cadw golwg ar yr achos; ac
- Os bydd yn mynd cyn belled â'r CPS yn ystyried y dystiolaeth, bydd yr achos yn cael blaenoriaeth er mwyn sicrhau bod uwch gyfreithydd yn gwneud penderfyniad cyflym.

Mae'n ffaith mai ychydig iawn o ddeiliaid tai a gafodd eu herlyn erioed am weithredoedd o ganlyniad i ddefnyddio grym yn erbyn tresbaswyr.



CPS

ACPO

Mae rhagor o gopïau o'r daflen hon, a fersiynau mewn ffurfiau eraill, ar gael gan:

Cangen Cyfathrebu y CPS
50 Ludgate Hill
Llundain EC4M 7EX

Ffôn: 020 7796 8442
Ffacs: 020 7796 8030
e-bost: publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

Argraffwyd gan Blackburns of Bolton (01204 550803) ar gyfer Gwasanaeth Erlyn y Goron ac ACPO.

DEILIAID TAI A DEFNYDDIO GRYM YN ERBYN TRESBASWYR

Datganiad Cyhoeddus ar y Cyd rhwng Gwasanaeth Erlyn y Goron a Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu